# Cylchlythyr y Rhaglen Anemia


**Mawrth 2024**

## Rhith-gynhadledd BHNOG 2024




Cynhaliwyd cynhadledd flynyddol BHNOG eleni 'Y Cynllun Iechyd Gwaed: Gwneud Iddo Weithio i Chi' yn rhithiol ar ddydd Llun 11 Mawrth. Cafodd y gynhadledd ei hagor gan Syr Frank Atherton, ac roedd yn arddangos y gwaith arloesol sydd yn cael ei wneud i gyflawni nodau strategol y Cynllun Iechyd Gwaed. Darparwyd amrywiaeth gyffrous o gyflwyniadau a phosteri gan arbenigwyr pwnc yn y meysydd Rheoli Gwaed Cleifion (PBM), Addysg a Hyfforddiant; Gwella Gwasanaethau; Ansawdd, Rheoleiddio ac Archwilio. Hoffem longyfarch enillydd cyffredinol y cyflwyniad poster, Debra Evans, nyrs glinigol cardiothorasig o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Gellir gweld yr holl gyflwyniadau yma.

## Adolygu y Llwybr Anemia Cyn-weithredol




Mae'r tîm yn gyffrous i fod wedi dosbarthu'r llwybr sydd newydd ei ddiwygio i randdeiliaid i'w hadolygu'n derfynol. Mae'r llwybr cyn-weithredol, sef yr enw mwy cywir, yn adeiladu ar safonau'r canllawiau gwreiddiol, ac yn canolbwyntio ar lawdriniaethau mawr sydd â risg uchel o waedu, ond mae bellach yn cynnwys eglurder ar y defnydd o'r canllawiau sgrinio anemia cyn-weithredol (POAS). Cysylltwch â'n tîm neu dîm arweinyddiaeth y clinig asesu cyn-weithredol (POAC) lleol i fod yn rhan o'r ymgynghoriad hwn.

# Diwrnod Ymwybyddiaeth Anemia y Byd

Daeth cydweithwyr ar draws gwasanaethau Cyn-weithredol Cymru a'r gadwyn gyflenwi gwaed at ei gilydd i gymryd rhan yn y gwaith o gefnogi Diwrnod Ymwybyddiaeth Anemia y Byd. Mae'r diwrnod yn cael ei gynnal bob blwyddyn ar 13 Chwefror (mae 13 yn cynrychioli'r rhif haemoglobin delfrydol ar gyfer yr iechyd gwaed gorau posibl).





Mae Diwrnod Anemia'r Byd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o anemia a diffyg haearn, ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd gweithredu ataliol wrth gefnogi iechyd y gwaed. Gellir gweld y neges yma.

# Addysg a Hyfforddiant

Cyflwynodd y tîm anemia eu sesiwn addysg gyntaf i nyrsys cyn-weithredol ar weinyddu haearn mewnwythiennol, mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr haearn ym mis Rhagfyr 2023. Cyflwynodd y siaradwr gwadd Victoria Carlyle, addysgwr clinigol, a'r Arbenigwr Pwnc mewn anemia oherwydd diffyg haearn, gyflwyniad gwybodus i nyrsys ar draws holl Fyrddau Iechyd Cymru. Ein nod yw darparu sesiynau addysg bellach, yn ogystal â sesiynau ar Reoli Gwaed Cleifion fel rhan o amserlen addysg barhaus i'n cydweithwyr nyrsio. Gellir gweld recordiad o'r sesiwn yma.



## Cyflwyno data




Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud yn sgil datblygu’r dangosfwrdd anemia cenedlaethol. Mae’r dangosfwrdd wedi cael ei adeiladu yn defnyddio nifer o ffrydiau data, ac mae’n dangos nifer y cleifion sy'n anemig ac sy’n cael llawdriniaeth fawr, ac effaith anemia ar eu canlyniadau clinigol.

Mae gwaith yn parhau i gael ei wneud i ddatblygu llif data newydd ar gyfer casglu data ar drin anemia cyn-weithredol, trallwysiadau a therapi haearn. Dyma agwedd fwyaf cymhleth y rhaglen hon, gyda chynnydd araf ond cyson yn cael ei wneud drwy gydweithio rhwng y tîm anemia a Gofal Iechyd Digidol Cymru a rhanddeiliaid ysbytai.

## Beth nesaf ar gyfer y prosiect anemia?

Roedd 2023 yn flwyddyn o lwyddiant i'r rhaglen anemia a'i rhanddeiliaid; llwyddodd i gyflawni llawer o'i hamcanion dwy flynedd o fewn amserlen blwyddyn. Mae datblygiadau newydd a chyffrous ar y gweill yn 2024. Rydym yn edrych ymlaen yn arbennig at weithredu'r llwybr diwygiedig newydd, ac yn parhau i gymryd camau breision wrth ddarparu data drwy'r dangosfwrdd anemia. Bydd adnoddau pecyn cymorth pellach yn cael eu cyhoeddi, gan gynnwys siart presgripsiwn newydd a chanllaw ar weinyddu haearn mewnwythiennol ar gyfer nyrsys. Rydym yn gobeithio darparu sesiynau addysg ar gyfer meddygon iau F1 a F2 sy'n cynnwys senarios rheoli anemia, yn ogystal â sesiwn addysg bellach ar Reoli Gwaed Cleifion a gweinyddu haearn mewnwythiennol ar gyfer nyrsys.

**I weld pecyn cymorth Anemia Cyn-weithredol BHNOG, cliciwch yma**

Mae'r cylchlythyr hwn wedi'i ddosbarthu ar ran Tîm Rhaglen Anemia BHNOG.

Mae croeso i chi ei anfon ymlaen at gydweithwyr neu bartïon eraill sydd â diddordeb.

I gael rhagor o wybodaeth neu ddiweddariadau, cysylltwch â’r Tîm Iechyd Gwaed:
WBS.bloodhealthteam@wales.nhs.uk

Os nad ydych yn dymuno derbyn y cylchlythyr hwn rhagor, cysylltwch â: WBS.bloodhealthteam@wales.nhs.uk